
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Senedd y Ymchwil**

# Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)

## Crynodeb o'r Bil

Mawrth 2019




www.cynulliad.cymru/ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/ymchwil**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Senedd Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6291**
E-bost: **Sian.Thomas@Cynulliad.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**



**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Senedd y Ymchwil**


# Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)

## Crynodeb o'r Bil

Mawrth 2019


**Awduron:**
Sian Thomas



**Trosolwg o'r papur:**
Mae'r papur yn rhoi crynodeb o'r Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru), a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'n cynnwys crynodeb o ddarpariaethau'r Bil, ac mae'n tynnu sylw at brif agweddau'r Bil ac at ddogfennau sy'n gysylltiedig ag ef. Mae hefyd yn cynnwys rhywfaint o gefndir polisi.

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad .... 1**

1.1. Ymrwymiad Llywodraeth Cymru i newid y gyfraith yng Nghymru 1

1.2. Dadleuon yn y Pedwerydd Cynulliad .... 1

1.3. Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru .... 2

**2. Trosolwg o'r Bil .... 4**

2.1. Y sefyllfa gyfreithiol bresennol .... 4

Cyfraith Trosedd .... 4

Cyfraith sifil .... 5

2.2. Darpariaethau'r Bil .... 5

2.3. Yr hyn na fydd yn newid .... 5

2.4. Enghraifft o'r modd y bwriedir i'r gyfraith newydd weithio .... 6

2.5. Is-ddeddfwriaeth .... 6

**3. Y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiadau Effaith .... 7**

3.1. Asesiad Effaith Rheoleiddiol .... 7

**4. Craffu ar y Bil yn y Cynulliad .... 8**

**Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru):** Crynodeb o'r Bil

**5. Safbwyntiau'r rhanddeiliaid .... 9**

**6. Y gyfraith mewn gwledydd eraill .... 10**

**Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru):** Crynodeb o'r Bil

# 1. Cyflwyniad

Ar 26 Mawrth 2019, bydd Julie Morgan AC, y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn gwneud datganiad yn y Cyfarfod Llawn i gyflwyno'r **Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)**.

Mae **Memorandwm Esboniadol**, yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol, wedi'i gyhoeddi gyda **dogfennau i gyd-fynd â'r Bil.**

Yn ei datganiad ar gymhwysedd deddfwriaethol, a **osodwyd** ar 25 Mawrth 2019, dywedodd y Llywydd fod darpariaethau'r Bil, yn ei barn hi, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## 1.1. Ymrwymiad Llywodraeth Cymru i newid y gyfraith yng Nghymru

Ym **mis Mehefin 2016**, cyfeiriodd Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru ar y pryd, at ymrwymiad ym maniffesto etholiad y Blaid Lafur, a dywedodd fod gwaith ar gosb corfforol yn rhywbeth 'sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd'. Yn ei rhaglen lywodraethu, **Symud Cymru Ymlaen**, mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad i geisio cefnogaeth 'ar draws y pleidiau ar gyfer deddfwriaeth i ddod â'r amddiffyniad 'cosb resymol' i ben. Ym **mis Mehefin 2017**, cyflwynodd y Prif Weinidog raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn i ddod, ac meddai:

> Rydym yn sefyll yn gadarn yn ein hymrwymiad i fynd ar drywydd newid yn y gyfraith, ac rydym yn parhau i weithio drwy'r cymhlethdodau cyfreithiol i ddatblygu Bil i wneud hyn yn realiti. Mae'n bwysig ein bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod ein deddfwriaeth yn cyflawni'r canlyniadau yr ydym eu heisiau ac yn osgoi unrhyw ganlyniadau anfwriadol. Felly, byddwn yn **ymgynghori ar ein cynigion i ddileu amddiffyniad o gosb resymol yn ystod y 12 mis nesaf, ac rydym yn bwriadu cyflwyno Bil yn nhrydedd flwyddyn tymor y Cynulliad hwn**. [ein pwyslais ni]

## 1.2. Dadleuon yn y Pedwerydd Cynulliad

Ym **mis Hydref 2011,** cymeradwyodd Aelodau'r Cynulliad gynnig dadl Aelod Unigol a oedd yn cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru 'yn annog Llywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth i'r Cynulliad ei hystyried a fyddai'n cael gwared â'r gallu i ddefnyddio 'cosb gyfreithlon' fel amddiffyniad yn erbyn cyhuddiad o ymosod ar blentyn.' Pleidleisiodd 24 Aelod o blaid, ymataliodd 13 (Aelodau'r Cabinet yn bennaf) a phleidleisiodd 15 Aelod yn erbyn y cynnig. Dywedodd Gwenda Thomas, y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd, ar ran Llywodraeth

Cymru, ei bod 'yn credu bod taro plant yn beth drwg' a thynnodd sylw at y ffocws yn y rhaglen ar wneud cosbi plant a phobl ifanc yn gorfforol yn annerbyniol trwy hyrwyddo dewisiadau amgen cadarnhaol. Aeth ymlaen i ddweud:

> ...nid wyf am ychwanegu at y problemau o ran y teuluoedd hynny nad oes ganddynt at eu defnydd y modd a sgiliau angenrheidiol er mwyn rhianta'n fwy cadarnhaol. Byddai ofn gennyf droseddoli rhieni, yn enwedig y rhai sydd fwyaf agored i niwed sydd gennym. Byddai angen gwneud llawer iawn o waith paratoi i baratoi'r ffordd ar gyfer deddfwriaeth o'r math hwn, ac ni fyddem yn gallu cyflwyno deddfwriaeth yn ystod tymor hwn y Cynulliad. Fodd bynnag, yr wyf wedi **ymrwymo i gadw'r opsiwn o ddeddfu ar ryw ddyddiad yn y dyfodol**, os na allwn gyflawni'r newid sylweddol a geisiwn trwy ddulliau eraill. [ein pwyslais ni]

Ym **mis Chwefror 2014**, trafodwyd gwelliant i'r ***Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)***, yn ceisio dod â›r amddiffyniad o gosb resymol i ben, a chafodd ei wrthod. Dywedodd Gwenda Thomas, y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd, **na allai Llywodraeth Cymru gefnogi'r gwelliant** gan nad hwn oedd y Bil cywir, byddai angen ymgynghori ar y mater cyn newid y gyfraith, ac y byddai Llywodraeth y DU - bryd hynny - yn debygol o gwestiynu a oedd gan y Cynulliad y cymhwysedd deddfwriaethol angenrheidiol.

Cafodd gwelliant tebyg i ddileu'r amddiffyniad o gosb resymol drwy gyfrwng y ***Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)*** ei wrthod ym **mis Mawrth 2015.** Cyfeiriodd Leighton Andrews, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ar y pryd, fod Llywodraeth Cymru '**wedi cymryd camau ar wahân i'r ddeddfwriaeth hon i ddechrau'r broses** o symud ymlaen ar y mater o ddileu'r amddiffyniad cosb resymol. '

## 1.3. Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru

Ym mis Ionawr 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **amrywiaeth o ddogfennau ymgynghori,** a dywedodd mai eu diben oedd cyfrannu at ddatblygu cynnig deddfwriaethol i ddileu'r amddiffyniad cosb resymol. Ym mis Awst 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **grynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.**

Ymhlith yr adroddiadau eraill a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru mae'r tri adroddiad a ganlyn gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru:



**Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru):** Crynodeb o'r Bil

- **Agweddau rhieni tuag at reoli ymddygiad plant ifanc** (2017)
- **Cosb gorfforol - yr effaith ar ganlyniadau ac agweddau plant** (2018) (Saesneg yn Unig
- **Deddfu i wahardd rhieni rhag cosbi plant yn gorfforol** (2018) (Saesneg yn Unig

# 2. Trosolwg o'r Bil

## 2.1. Y sefyllfa gyfreithiol bresennol

Nid yw'r Bil fel y'i drafftiwyd **yn creu trosedd newydd.** Yn hytrach, mae'n dileu amddiffyniad i'r troseddau presennol o ymosodiad cyffredin ar blentyn neu ei guro, neu dresmasu yn erbyn plentyn.

*[Yng nghyfraith Cymru a Lloegr, mae ystyr gwahanol i 'ymosodiad' a 'churo'. Yn gyffredinol: 'curo' yw defnyddio grym gwirioneddol anghyfreithlon yn fwriadol neu'n ddi-hid i gorff person arall (ee ei ddyrnu); 'ymosodiad' yw'r posibilrwydd y caiff grym anghyfreithlon ei ddefnyddio (ee bygythiad wyneb yn wyneb gan oedolyn i ddyrnu oedolyn arall yn ystod anghytundeb).]*

Ar hyn o bryd, mae'r amddiffyniad **yn gymwys o ran cyfraith trosedd a'r gyfraith sifil.**

### Cyfraith Trosedd

Mae adran 58 o **Ddeddf Plant 2004** yn golygu, yn achos rhieni, neu oedolion sy'n gweithredu 'in loco parentis', yng Nghymru:

- **na allant** ddefnyddio cosb resymol yn amddiffyniad os cânt eu cyhuddo o glwyfo, achosi gwir niwed corfforol, niwed corfforol difrifol neu greulondeb i blant o dan 16 oed.
- **y gallant** ddefnyddio cosb resymol yn amddiffyniad os cânt eu cyhuddo o ymosodiad cyffredin yn erbyn plentyn. **Nod y Bil yw diddymu'r amddiffyniad hwn.**

Yng nghanllawiau cyfreithiol Gwasanaethau Erlyn y Goron, **'Offences against the Person incorporating the Charging Standard',** nodir, o ran cyhuddiad o ymosodiad cyffredin, y bydd y ffactorau a ganlyn yn help i benderfynu a oedd y gosb dan sylw yn rhesymol a chymedrol:

- natur a chyd-destun ymddygiad y diffynnydd;
- hyd yr ymddygiad hwnnw;
- y canlyniadau corfforol a meddyliol o ran y plentyn;
- oedran a nodweddion personol y plentyn;
- y rhesymau a roddodd y diffynnydd dros weinyddu'r gosb.



**Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru):** Crynodeb o'r Bil

Mae'r canllwiau hefyd yn datgan:

> Unless the injury is transient and trifling and amounted to no more than temporary reddening of the skin, a charge of ABH, for which the defence does not apply, should be preferred.

### Cyfraith sifil

Yn y gyfraith sifil, mae ymosod a churo yn gyfystyr â chamwedd, neu gamwri sifil: camwedd tresmasu yn erbyn y person. Yn ogystal â dileu'r amddiffyniad mewn perthynas a chyfraith trosedd, mae'r Bil yn ceisio dileu'r amddiffyniad mewn perthynas â chamwedd tresmasu yn erbyn y person.

## 2.2. Darpariaethau'r Bil

Mae'r Bil yn cynnwys un brif adran (adran 1).

- Mae adrannau 1(1) ac 1(2) yn diddymu'r amddiffyniad cosb resymol y cyfeirir ato uchod (mewn achosion troseddol a sifil) o ran cosbi plentyn yn gorfforol yng Nghymru.
- Mae adran 1(3) o'r Bil yn darparu na ellir cyfiawnhau rhoi cosb gorfforol i blentyn sy'n digwydd yng Nghymru mewn unrhyw achos sifil neu droseddol ar y sail ei bod yn gyfystyr ag ymddygiad derbyniol at ddibenion unrhyw reol arall yn y gyfraith gyffredin.

## 2.3. Yr hyn na fydd yn newid

- Mae y ME yn dweud nad 'yw'r Bil yn diffinio camau penodol a gymerir gan rieni mewn perthynas â'u plant a fyddai neu na fyddai'n dderbyniol unwaith y diddymir yr amddiffyniad. Ni fydd dileu'r amddiffyniad yn ymyrryd ag egwyddorion y gyfraith gyffredin, sy'n cydnabod y gall rhiant ymyrryd yn gorfforol, er enghraifft, i gadw plentyn yn ddiogel rhag niwed, neu i'w helpu i wneud gweithgareddau fel glanhau dannedd.'
- Nid yw'r Bil fel y'i drafftiwyd yn effeithio ar sefyllfaoedd lle defnyddir mwy o rym yn erbyn y plentyn na'r hyn a fyddai'n gyfystyr â churo yn ôl y gyfraith gyffredin. **Nid yw amddiffyniad cosb resymol ar gael ar gyfer troseddau o'r fath,** ac ni fyddai'r Bil yn newid y sefyllfa honno ychwaith.
- Mae defnyddio cosb gorfforol mewn ysgolion a lleoliadau **addysgol eraill eisoes wedi'i wahardd** gan adran 548 o Ddeddf Addysg 1996. Nid yw'r Bil yn newid y sefyllfa hon.

### 2.4. Enghraifft o'r modd y bwriedir i'r gyfraith newydd weithio

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cyflwyno safbwynt Llywodraeth Cymru, sef:

> …bod y gyfraith gyffredin eisoes yn cydnabod ei bod yn angenrheidiol (ac yn gyfreithlon) i rieni neu oedolion eraill ymgymryd ag ymyriadau corfforol penodol wrth arfer awdurdod rhiant mewn perthynas â phlant, hyd yn oed pan fyddai'r ymyriadau (oni bai am y gydnabyddiaeth hon) yn gyfystyr ag ymosod neu guro.

Mae'n mynd ymlaen i nodi:

> Nid yw cyfreithlondeb yr ymyriadau hyn yn deillio o fodolaeth amddiffyniad cosb resymol, gan na fwriedir iddynt fod yn gyfystyr â chosb gorfforol. Mae hyn yn golygu y caniateir ymyriadau corfforol penodol gan riant mewn perthynas â phlentyn hyd yn oed pan na chaniateid yr ymyriadau hynny, o angenrheidrwydd, yng nghyd-destun dau oedolyn.
>
> Un enghraifft bosibl yw'r ymyriad corfforol sy'n angenrheidiol er mwyn cadw plentyn yn ddiogel rhag niwed, megis atal plentyn yn gorfforol rhag rhedeg i'r ffordd (yn hytrach nag unrhyw ymyriad corfforol sydd â›r bwriad o gosbi plentyn am redeg i'r ffordd) neu atal plentyn yn gorfforol i'w gadw rhag niweidio ei hunan neu rhag niweidio eraill. Gallai enghreifftiau eraill gynnwys defnyddio grym rhesymol i wisgo plentyn, neu i frwsio dannedd plentyn.
>
> Gall arfer awdurdod rhiant hefyd ei gwneud yn ofynnol defnyddio ymyriadau corfforol sy'n angenrheidiol at ddiben defnyddio dulliau eraill yn lle cosb gorfforol, er mwyn annog ymddygiad cadarnhaol a chadw plant yn ddiogel. Byddai hynny'n cynnwys, er enghraifft, gario plentyn i rywle i gymryd amser i ymdawelu.

### 2.5. Is-ddeddfwriaeth

Mae'r Bil yn cynnwys un ddarpariaeth i wneud is-ddeddfwriaeth.

Mae'n caniatáu i Weinidogion Cymru, mewn gorchymyn a wneir gan offeryn statudol, wneud darpariaeth ar gyfer dod ag adran 1 i rym a gwneud darpariaeth drosiannol, ddarfodol neu arbed.





## 3. Y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiadau Effaith

Mae **Memorandwm Esboniadol y Bil** yn 99 tudalen o hyd ac mae'n cynnwys ystod o wybodaeth sy'n berthnasol i'r Bil a Nodiadau Esboniadol yn Atodiad A. Mae'n datgan:

> Bydd y Bil yn diddymu'r arfer o gosbi plant yn gorfforol yng Nghymru drwy gael gwared ar amddiffyniad cosb resymol.

Mae'n mynd ymlaen i ddweud mai 'prif amcan y Bil yw amddiffyn hawliau plant drwy wahardd rhieni rhag cosbi plant yn gorfforol'.

### 3.1. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ar dudalennau 28-58 o'r Memorandwm Esboniadol mae amcangyfrif o'r costau o weithredu'r Bil, a'r fethodoleg ar gyfer yr amcangyfrifon hynny.

Ar dudalennau 58-62 o'r Memorandwm Esboniadol mae gwybodaeth am yr asesiadau effaith a gynhaliwyd ar y Bil. Mae **Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant** ac **Asesiad or effaith ar gydraddoldeb** wedi eu cyhoeddi ar wahân.

## 4. Craffu ar y Bil yn y Cynulliad

Mae Pwyllgor Busnes y Cynulliad wedi atgyfeirio'r Bil at y **Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i graffu arno.** Mae hefyd wedi pennu 'amserlen fras'. Ar hyn o bryd, mae disgwyl i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gyflwyno adroddiad ar egwyddorion cyffredinol y Bil (Cyfnod 1 y broses graffu) erbyn 19 Gorffennaf 2019. Bydd yn ymgymryd â›i waith craffu yn unol â›r broses a nodir yn y **Canllawiau i Gyfnodau Biliau Cyhoeddus.**

Er mwyn llywio ei waith, mae disgwyl i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg lansio ymgynghoriad chwe wythnos ar 2 Ebrill 2019. Bydd rhagor o wybodaeth am waith craffu'r Pwyllgor yng Nghyfnod 1 ar gael **dudalen y Bil ar y we.**

Hefyd, bydd y **Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol** a'r **Pwyllgor Cyllid** yn ystyried y Bil ac yn craffu arno, a bydd y ddau Bwyllgor hyn hefyd yn llunio adroddiadau.

Mae'r **amserlen fras** a luniwyd gan Bwyllgor Busnes y Cynulliad ar gyfer y Bil yn awgrymu na fydd dyddiad y Cydsyniad Brenhinol tan 2020, os ydy y Bil yn cyrraedd y cam hwnnw.

Fel y nodwyd uchod, mae'r Bil yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru benderfynu pa bryd y daw prif ddarpariaeth y Bil i rym.





## 5. Safbwyntiau'r rhanddeiliaid

Mae'r Bil yn debygol o ennyn diddordeb mawr o du'r cyhoedd. Mae amrywiaeth eang o safbwyntiau o blaid ac yn erbyn newid y gyfraith. Mae'r rhain yn cynnwys, ymhlith eraill, **Be Reasonable Wales,** sy'n gwrthwynebu newid y gyfraith, a '**Sdim Curo Plant**! sydd wedi ymgyrchu i newid y gyfraith bresennol.

# 6. Y gyfraith mewn gwledydd eraill

Yn ôl adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, **Deddfu i wahardd rhieni rhag cosbi plant yn gorfforol** (Saesneg yn unig):

> As of May 2018, 53 countries have made the physical punishment of children unlawful. Some countries have abolished the defence of reasonable punishment in their criminal law. Other countries, some of which had first abolished the defence of reasonable punishment, have incorporated into their Civil Codes laws which explicitly prohibit the physical punishment of children by parents. Other countries are considering reform.

Yn yr Alban, cyflwynwyd y **Bil Plant (Diogelu Cyfartal rhag Ymosodiad (Yr Alban)** fel deddfwriaeth aelod preifat gan John Finnie ASA ym mis Medi 2018. Ar hyn o bryd, mae **Pwyllgor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol** yr Alban yn craffu arno. Mae cyfraith trosedd a chyfraith sifil yr Alban yn wahanol i Gymru a Lloegr, felly ni ellir gwneud cymariaethau uniongyrchol bob amser.

Nod y Bil yw diddymu'r amddiffyniad o 'gosb resymol' y gellir ei ddefnyddio i gyfiawnhau defnyddio grym corfforol ar blentyn, ac yn ôl y **Nodiadau Esboniadol** sy'n cyd-fynd â'r Bil:

> Section 1(2) repeals section 51 (physical punishment of children) of the Criminal Justice (Scotland) Act 2003. [...] The effect, therefore, of section 1 is that a parent, or anyone in charge or care of a child, will no longer be able to claim a defence of reasonable chastisement or justifiable assault if accused of assaulting a child in any proceedings (civil or criminal).

Yn wahanol i Fil Llywodraeth Cymru, mae Deddf yr Alban yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion yr Alban i hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o effaith y Bil.